



Prif Weithredwr
Coleg Gwent
Campws Pont-y-Pwl a Brynbuga
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

18 Medi 2019

Annwyl Brif Weithredwr,

Ymgynghori¹ wrth ddyfarnu ar gais gan Goleg Gwent

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau fy mod bellach wedi ystyried eich ceisiadau i herio safonau 55, 58 a 59. Cyn dod i ddyfarniad terfynol, mae'n rhaid i mi ymgynghori â chi. Pwrpas y llythyr hwn felly yw rhoi cyfle i chi ymateb i fy sylwadau cychwynnol a'r dyfarniad yr wyf yn bwriadu eu gwneud.

Hoffwn i chi ymateb i'r cynnig yn y llythyr hwn gan nodi a ydych yn cytuno iddynt ai peidio erbyn 2 Hydref 2019. Os nad ydych yn cytuno, nodwch pam a pha gamau pellach yr ydych yn eu dymuno. Os nad fyddaf yn derbyn unrhyw ymateb, byddaf yn symud i ddyfarnu yn unol â'r cynigion yn y llythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y llythyr hwn, eich swyddog cyswllt yw Lora Gwawr Williams.

Yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

¹ adran 57(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Sylwadau cychwynnol Comisiynydd y Gymraeg ar geisiadau Coleg Gwent

1. Safonau a heriwyd mewn modd penodol:

Safon 55

Rhaid i chi sicrhau –

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Diwrnod gosod: 01/10/2019

Safon 58

Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i chi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Diwrnod gosod: 01/10/2019

Safon 59

Rhad ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Diwrnod gosod: 01/10/2019

Crynodeb o'r cais

- 1.1 Rydych yn honni bod y gofyniad i gydymffurfio â safonau 55, 58 a 59 yn anghymesur yn y modd eu gosodir, sef y diwrnod gosod ac yn ceisio estyniad i'r diwrnod gosod hyd at 16 Rhagfyr 2019.
- 1.2 Bydd hyn yn eich galluogi i gwblhau gweddill y gwaith sydd angen ei wneud i addasu'r wefan a chynnwys y cyfnod o oedi a fu o ganlyniad i'r ailstrwythuro sefydliadol.
- 1.3 Fe nodwch ei fod yn bosib y byddwch yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn cyn y diwrnod gosod a geisir.
- 1.4 Felly, ag ystyried yr uchod, fy mhenderfyniad arfaethedig yw bod y gofyniad i gydymffurfio â safonau 55, 58 a 59 yn y modd y cawsant eu gosod yn anghymesur.
- 1.5 Mae'r Comisiynydd yn cytuno i amrywio hysbysiad cydymffurfio Coleg Gwent drwy ymestyn diwrnod gosod y dair safon hon i 16 Rhagfyr 2019.
- 1.6 **A wnewch chi gadarnhau a ydych yn cytuno i'r amgylchiad uchod ai peidio fel nad oes angen ymgynghori pellach yn achos y safonau dan sylw, os gwelwch yn dda.**



Crynodeb o'r dyfarniadau arfaethedig:

Rhif safon Rheoliadau Rhif 6	Rhif cyfeirnod y Comisiynydd	Dyfarniad arfaethedig y Comisiynydd	Camau dilynol
55	979-20190819-CG-55	Bod y gofyniad i gydymffurfio â'r safonau erbyn 1 Hydref 2019 yn anghymesur.	Newid y diwrnod gosod o 1 Hydref 2019 i 16 Rhagfyr 2019 ar gyfer y dair safon.
58	980-20190819-CG-58		
59	981-20190819-CG-59		